

Sul Un Byd

Darlleniad: Hosea 14

‘Duw a Thad yr holl genhedloedd, ti a folwn a thi
a gydnabyddwn yn Arglwydd. Yr holl ddaear a’th
fawl di, y Tad tragwyddol. Nefoedd a daear sydd
yn llawn o’th ogoniant.’

Gofynnwn iti faddau pob dim sy’n gyfrwng i achosi rhaniadau yn y gymdeithas, yn yr Eglwys ac yn y byd. Maddau yr hyn sy’n creu ofn ac amheuaeth rhwng pobl a’i gilydd. Maddau’r trachwant sy’n rhoi bod i’r Trydydd Byd. Maddau’r hunanoldeb sy’n arwain at ddiodefaint a rhyfela yn ein byd. Maddau i’r lleiafrif barus sy’n ysbeilio dy greadigaeth di ar draul y gweddill gwan. Maddau i ni am gyfeirio ein hadnoddau at ein lles ein hunain yn hytrach nag at yr anghenus. Maddau i’r cyfoethog sy’n esgyn ar draul y tlawd sy’n newynu. Maddau i’r cefnog cysurus sy’n sathru’r gwan a’r trallodus. Maddau i’r rhai uchel eu gallu sy’n manteisio ar y sawl sy’n brin o allu. Maddau i ni, ein Tad, ein bod yn llwyddo i gysgu’r nos yn berffaith esmwyth a’n cydwybod yn berffaith dawel er gwaetha’r rhaniadau sydd yn ein byd. Maddau i ni, O! Dad, ein bod wrth bellhau oddi wrthyt ti wedi pellhau oddi wrth ein gilydd, ac mai grym pechod sy’n ein gwahanu oddi wrth ein gilydd.

Diolch i ti am ein dysgu drwy dy broffwydi dy fod fel Duw cyfiawn yn hawlio cyfiawnder fel egwyddor sylfaenol i’r rhai sy’n arddel dy enw. Gweddïwn am i dlodion ein daear ac i holl deulu dyn sylweddoli dy fod yn chwilio amdanom oll yn ein tloidi ysbrydol gan ewyllysio inni droi atat ti.

Wrth inni droi atat ti, caiff y difrawder sy’n suro ein byd ei ddifa, a chaiff y trachwantus sy’n sugno’r byd o’i gyfoeth weld mai trwy estyn llaw at gyd-ddyn mae darganfod gwir fwynhad a phwrpas mewn bywyd.

GWEDDIAU CYHOEDDUS

Diolchwn i ti am y doniau a'r gallu a roddaist i ni fel pobl. Maddau i ni, ein Tad, ein bod wedi camddefnyddio dy roddion i greu offer dinistr yn hytrach na manteisio ar ein doniau i leddfu angen y gwan a'r gwael.

Nertha ni i sylweddoli bod dy dadolaeth di'n ein gwneud yn un teulu. Dyro inni, drwy dy ras, weld bod gennym gyfrifoldeb fel teulu i ofalu am ein gilydd yn un teulu dedwydd ynot ti.

‘Pob lliw, pob llun, O! down ynghyd,
Un teulu ydym ni;
A wasanaetho Dduw ein Tad,
Mae'n frawd neu chwaer i mi.’

Cofiwn am y rhai sy'n llafurio dan amodau anffafriol ac ar gyflogau prin i gynhyrchu nwyddau yn rhad i'r gweddill ohonom. Rho inni'r dewrder i ofalu nad oes neb yn dioddef er mwyn inni dderbyn ein danteithion yn rhatach.

Gweddiwn ar i'th ewyllys gael ei chyflawni hyd eithafoedd y ddaear fel bod trais a loes, tristwch a thrachwant yn cael eu diorseddu gan hedd a llawenydd, gan gyfiawnder a chariad.

‘Hyn fo'n gweddi wrth ymestyn
At bob llwyth a gwlad sy'n bod.’

Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist. Amen.

Gwyn Thomas